Asiantaeth Safonau Bwyd
food.gov.uk
Food Standards Agency

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru

Penodi Aelod

Dyddiad cau: 30/04/2023

Cynnwys

	Tudalen
Gwneud Cais	**2-4**
Atodiad A: Rôl yr Aelod	**5-6**
Atodiad B: Rôl a chyfrifoldebau Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru a'r aelod	**7**
Atodiad C: Y broses ddethol	**8-9**

Gwneud cais

Diolch am fynegi diddordeb mewn bod yn aelod o Bwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru (WFAC). Bydd disgwyl i'r aelod newydd gymryd rhan mewn cyfarfodydd a chyfrannu at drafodaethau. Mae aelodau'n gyfrifol am sicrhau bod penderfyniadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn ystyried cyngor gwyddonol, buddiannau defnyddwyr a ffactorau perthnasol eraill. Mae'r Atodiadau sydd ynghlwm yn nodi manylion rôl yr aelod a manyleb y person, rôl a chyfrifoldebau Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru a'r broses ddethol.

I wneud cais, ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yma: https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-cy/mobile-0/appcentre-3/brand-2/xf-643606d0a1d8/candidate/jobboard/vacancy/7/adv/.

I wneud cais am y rôl hon, cliciwch ar swydd wag aelod o Bwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru ac yna cliciwch y botwm 'Gwneud Cais' ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro cyntaf i chi wneud cais am swydd, bydd angen i chi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ceisiadau ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y mae angen i chi gofrestru, a thrwy wneud hynny byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill rydych yn eu gwneud, trwy eich cyfrif.

Unwaith i chi gofrestru, byddwch yn gallu cael mynediad at y ffurflen gais. I wneud cais bydd angen i chi uwchlwytho datganiad personol a CV i adran 'Rhesymau dros wneud cais' y ffurflen gais ar-lein.

Datganiad Personol
Eich datganiad personol yw eich cyfle i ddangos sut rydych yn bodloni'r holl feini prawf a nodir ym manyleb y person. Cewch chi benderfynu sut i gyflwyno'r wybodaeth. Fodd bynnag, dylech anelu at ddarparu enghreifftiau manwl sy'n dangos sut y mae eich gwybodaeth a'ch profiadau yn bodloni pob maen prawf, ac sy'n disgrifio eich rôl chi wrth gyflawni canlyniad penodol. Bydd hefyd o fudd i'r panel dethol os gallwch nodi'n glir pa dystiolaeth benodol sy'n berthnasol i ba faen prawf. Mae'n arfer cyffredin darparu paragraffau ar wahân ar gyfer pob maen prawf.

Ni ddylai'r datganiad personol fod yn hirach na dwy dudalen. Gallai eich cais gael ei wrthod os byddwch yn mynd dros y terfyn hwn.

CV
Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion cryno eich swydd bresennol neu eich swydd ddiweddaraf a'ch dyddiadau yn y swydd hon. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol.

Cyfeiriadau
Darparwch ddau ganolwr (cyflogwr a phersonol). Byddwn ond yn cysylltu â nhw yn achos ymgeiswyr llwyddiannus.

Amserlen fras

Dyddiad cau:	30 Ebrill 2023
Llunio rhestr fer:	Wythnos yn dechrau 15 Mai 2023
Cyfweliadau:	Wythnos yn dechrau 26 Mehefin 2023

Datganiad am amrywiaeth
Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai cyrff cyhoeddus gael aelodau bwrdd sy'n adlewyrchu'r gymdeithas yng Nghymru – a phobl o bob cefndir – i'w helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyma pam mae Llywodraeth Cymru yn annog unigolion o gefndiroedd eang ac amrywiol i wneud cais am benodiadau i gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl o gefndir du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl, a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol.

Hyderus o ran Anabledd

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y diffiniad cymdeithasol o anabledd, lle cydnabyddir bod rhwystrau mewn cymdeithas yn gweithredu i analluogi pobl sydd â namau neu gyflyrau iechyd neu sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain. Rydym wedi ymrwymo i gael gwared ar rwystrau fel bod pob aelod o staff yn gallu perfformio ar eu gorau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd, sef nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith 'sylweddol' a 'hirdymor' ar allu person i wneud gweithgareddau dyddiol arferol.

Rydym yn gwarantu cyfweld ag unrhyw un sy'n anabl os yw eu cais yn bodloni'r meini prawf gofynnol ar gyfer y swydd. Drwy 'meini prawf gofynnol' rydym yn golygu bod rhaid i chi roi tystiolaeth yn eich cais sy'n dangos eich bod yn cyrraedd lefel y cymhwysedd ar gyfer y rôl yn gyffredinol ac unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiad a ddiffinnir fel rhai hanfodol.

Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu pobl anabl yn eu swydd a'u gyrfa. Os hoffech gyfweliad gwarantedig, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

Os oes gennych nam neu gyflwr iechyd, neu os ydych yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain, ac yn dymuno trafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio hon, cysylltwch â mailto:publicappointments@gov.walespenodiadaucyhoeddus@llyw.cymru gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod cyn gynted â phosibl, a bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi i drafod eich gofynion ac i ateb eich cwestiynau.

Manylion cyswllt:
I gael mwy o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â'r canlynol:

Tîm Penodiadau Cyhoeddus
Uned Cyrff Cyhoeddus
E-bost: penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru

I gael rhagor o wybodaeth am rôl Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru a rôl Aelodau, mae croeso i chi gysylltu â Lucy Edwards:

Ffôn: 07342 078780
E-bost: lucy.edwards@food.gov.uk

Os oes angen mwy o gymorth arnoch i wneud cais am y rôl hon, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru

I gael mwy o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i www.llyw.cymru/penodiadau-cyhoeddus

Atodiad A

Penodi Aelod i Bwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru

Disgrifiad o'r rôl a manyleb y person

Rôl a chyfrifoldebau

Mae'r Pwyllgor yn gweithredu fel bwrdd cynghori i'r ASB. Dyma gylch gorchwyl y Pwyllgor:

- rhoi cyngor neu wybodaeth i'r Asiantaeth am faterion sy'n gysylltiedig â'i gweithrediadau, gan gynnwys materion sy'n effeithio ar Gymru neu sy'n berthnasol iddi.

Manyleb y Person

Er mwyn cael eich ystyried, rhaid i chi allu dangos bod gennych y rhinweddau, y sgiliau a'r profiad i fodloni pob un o feini prawf hanfodol y rôl.

Meini Prawf Hanfodol

Sgiliau a gwybodaeth hanfodol

- Arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth gyfredol a pharhaus o faterion diogelwch a safonau bwyd, gan gynnwys datblygu polisi a thirwedd rhanddeiliaid, fel y maent yn berthnasol i Gymru.
- Sgiliau dadansoddi, strategol a gwneud penderfyniadau cryf, yn gallu pwyso a mesur tystiolaeth gymhleth ac egluro sail y cyngor.
- Bod yn graff eich barn, gyda lefel uchel o onestrwydd a chyfrifoldeb cyhoeddus, ynghyd â'r gallu i gyfrannu at wneud penderfyniadau anodd.
- Y gallu i ddehongli a chyfathrebu gwybodaeth yn effeithiol ar lafar, yn ysgrifenedig a thrwy ystod o gyfryngau.
- Y gallu i wasanaethu heb wrthdaro buddiannau neu i ddangos sut y byddant yn ymdrin â gwrthdaro buddiannau posib, boed yn rhai go iawn neu'n rhai tybiedig.
- Y gallu i ystyried a deall cyngor, tystiolaeth a dadleuon gwyddonol.
- Ymrwymiad i faterion defnyddwyr neu ddod â mewnwelediadau bwyd/defnyddwyr o fewn cyd-destun Cymru.
- Dangos profiad perthnasol yn un (neu fwy) o'r canlynol:

Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru

Mae'r Pwyllgor yn chwilio am unigolion a all ddangos bod ganddynt brofiad perthnasol mewn un neu fwy o'r meysydd canlynol:

- Buddiannau defnyddwyr (er enghraifft, ymchwil defnyddwyr neu ymgysylltu â defnyddwyr drwy ystod o gyfryngau, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol).
- Cyflenwi bwyd (er enghraifft, y sector arlwyo/bwytai/gwestai, mentrau bwyd cymunedol, llunio polisïau mewn meysydd cysylltiedig)
- Cyfathrebu (er enghraifft, darlledu, y wasg neu gyfryngau cymdeithasol)
- Gwyddoniaeth (er enghraifft, Microbioleg, Meddygol, Epidemioleg, Milfeddygol, Iechyd y Cyhoedd neu Wyddorau Cymdeithasol, newid ymddygiad yn benodol)
- Polisi bwyd (er enghraifft, llywodraethu, safonau a sicrwydd y system fwyd)
- Cyfraith bwyd (er enghraifft, diogelu defnyddwyr, twyll bwyd, gorfodi cyfraith bwyd)
- Addysg/Academi (er enghraifft, ymchwilio neu addysgu systemau bwyd a diogelwch)
- Cynhyrchu bwyd (er enghraifft, cynhyrchu bwyd neu fwyd anifeiliaid cynradd neu ddiwydiannol)
- Cyrff cyhoeddus perthnasol (er enghraifft, iechyd y cyhoedd).

Y Gymraeg

Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol ar gyfer y swydd hon.

Ffeithiau pwysig am y swydd

Lleoliad: Fel rheol, cynhelir y cyfarfodydd pwyllgor yng Nghaerdydd. Fodd bynnag, efallai y bydd adegau pan gynhelir cyfarfodydd ledled Cymru.

Ymrwymiad Amser:	21 diwrnod y flwyddyn
Hyd y penodiad:	Penodiad o 3 blynedd i ddechrau
Tâl cydnabyddiaeth:	**£3,885 y flwyddyn**

Pwy sy'n gymwys i wneud cais?

Dylai ymgeiswyr nodi hefyd na fyddant yn gymwys i fod yn aelod o Senedd Cymru o dan Orchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020 tra byddant yn aelod o Bwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru.
Gorchymyn (Anghymhwyso) Senedd Cymru 2020 (legislation.gov.uk).
.

Gwrthdaro buddiannau

Wrth wneud cais, gofynnir i chi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a all fod, neu y gellir ystyried eu bod, yn gwrthdaro â'r rôl a'r cyfrifoldebau fel Aelod o Bwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru, gan gynnwys unrhyw fuddiannau busnes a safleoedd o awdurdod tu allan i'r rôl ar y Pwyllgor.

Bydd unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei drafod yn y cyfweliad. Os byddwch yn cael eich penodi, bydd disgwyl i chi hefyd ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

Diwydrwydd Dyladwy
Bydd Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar bob ymgeisydd sy'n llwyddo yn y sifft i gael cyfweliad. Bydd hynny'n cynnwys, ymhlith efallai pethau eraill, chwiliadau ar y cyfryngau cymdeithasol a'r Rhyngrwyd. O ganlyniad, gallem ofyn cwestiynau i chi yn y cyfweliad am ffrwyth y gwiriadau diwydrwydd dyladwy hyn.

Safonau mewn bywyd cyhoeddus
Bydd disgwyl i chi ddangos safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Bydd gofyn i bob ymgeisydd llwyddiannus danysgrifio i'r Cod Ymarfer ar gyfer Aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus. Mae'r ddogfen hon ar gael drwy:

https://www.gov.uk/government/publications/code-of-conduct-for-board-members-of-public-bodies

Rhaid i weision sifil beidio â chamddefnyddio eu safle swyddogol na gwybodaeth a gafwyd yn ystod eu dyletswyddau swyddogol i hybu eu buddiannau preifat neu fuddiannau pobl eraill. Gall gwrthdaro buddiannau ddeillio o fuddiannau ariannol, ac yn ehangach o ymwneud swyddogol ag unigolion sy'n rhannu buddiannau preifat gwas sifil, neu benderfyniadau mewn perthynas â hwy (er enghraifft saeryddiaeth rydd, aelodaeth o gymdeithasau, clybiau a sefydliadau eraill, a theulu). Pan fo gwrthdaro buddiannau yn codi, rhaid i weision sifil ddatgan y buddiannau hynny i uwch-reolwyr, fel y gall uwch-reolwyr benderfynu ar y ffordd orau i symud ymlaen.

Atodiad B

Rôl a chyfrifoldebau Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru

Cefndir

Mae'r ASB yn adran anweinidogol annibynnol Llywodraeth y DU a sefydlwyd gan Ddeddf Seneddol ym mis Ebrill 2000 fel corff gwarchod diogelwch bwyd, er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd a buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd. Mae ei chylch dylanwad yn amrywio ar draws yr holl gadwyn fwyd, o blaladdwyr a meddyginiaethau milfeddygol hyd at ddiogelwch bwyd a safonau bwyd mewn siopau, bwytai a siopau tecawê. Mae'r ASB yn gweithio'n agos â chyrff eraill fel awdurdodau lleol, adrannau eraill y Llywodraeth ac Asiantaethau Gweithredol er mwyn sicrhau y caiff rheoliadau ar ddiogelwch a safonau bwyd eu gorfodi er mwyn diogelu defnyddwyr. Caiff gwaith ymchwil ac arolygon eu comisiynu gan ystod o ffynonellau (gan gynnwys Pwyllgorau Cynghori annibynnol, arbenigwyr unigol a chyrff sydd â diddordeb) er mwyn sicrhau bod polisïau'n seiliedig ar y dystiolaeth ddiweddaraf a gorau sydd ar gael. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan fod angen i'r ASB reoli peryglon bwyd yn wyneb gwybodaeth anghyflawn neu anghytuno ymysg arbenigwyr.

Mae cyfrifoldebau ac atebolrwydd yr ASB i'r Gweinyddiaethau Datganoledig cyfwerth â'i chyfrifoldebau a'i hatebolrwydd i Lywodraeth San Steffan. Mae Cadeirydd a Bwrdd yr ASB yn atebol yn uniongyrchol i Senedd Cymru.

Yn ogystal â'i phencadlys yn Llundain, mae gan yr ASB swyddfeydd yng Nghaerdydd a Belfast, i gefnogi ei gweithrediadau yng Nghymru a Gogledd Iwerddon, ac mae swyddfeydd rhanbarthol eraill yng Nghaerefrog a Birmingham.

Mae cylch gwaith yr ASB yng Nghymru yn cynnwys diogelwch a safonau bwyd. Nid yw maeth o fewn cylch gwaith yr ASB yng Nghymru. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am y maes gwaith hwn.

Mae'r ASB yn Adran y Llywodraeth ond caiff ei harwain gan Fwrdd yn hytrach na Gweinidog. Mae hyn yn ei galluogi i weithio "hyd braich" oddi wrth y Llywodraeth. Atgyfnerthodd y ddeddfwriaeth a sefydlodd yr ASB (Deddf Safonau Bwyd 1999) safle'r ASB, drwy roi iddi bwerau i gyhoeddi unrhyw gyngor mae'n ei gynhyrchu, gan gynnwys cyngor i Weinidogion. Mae Aelod Bwrdd yr ASB dros Gymru hefyd yn gweithredu fel Cadeirydd Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru.

Gan gydnabod bod ystod o gyngor ar fwyd sy'n aml yn gwrthdaro ac yn ddryslyd, mae'r ASB yn ceisio sicrhau mai hi yw ffynhonnell cyngor a gwybodaeth fwyaf dibynadwy'r DU ar fwyd, ac y gall defnyddwyr fod â hyder ynddi. Dyma'r egwyddorion sy'n llywio'r ASB:

- rhoi'r defnyddiwr yn gyntaf
- bod yn agored a thryloyw
- bod yn seiliedig ar wyddoniaeth a thystiolaeth
- gweithredu'n annibynnol
- gorfodi cyfraith bwyd yn deg

Wrth roi'r defnyddiwr yn gyntaf, diogelwch bwyd yw prif flaenoriaeth yr ASB. Mae'n ceisio darparu gwybodaeth ddealladwy, gywir a dibynadwy i ddefnyddwyr, y gallant seilio eu penderfyniadau am fwyd arni, ac a fydd yn eu helpu i ddeall yr holl faterion

mewn perthynas â bwyd, diogelwch bwyd, a deiet a maeth. Mae'r ASB yn ymroddedig i gefnogi pob defnyddiwr gyda materion bwyd, gan gynnwys y rheiny sydd dan yr anfantais fwyaf yn gymdeithasol ac yn economaidd.

Mae'r ASB yn seilio ei phenderfyniadau a'i chyngor ar y dystiolaeth orau sydd ar gael, gan anelu at sicrhau bod y broses o wneud penderfyniadau mor agored a thryloyw â phosib, ceisio safbwyntiau partïon sydd â buddiant cyn dod i gasgliadau, a sicrhau ei bod bob amser yn esbonio'r rhesymau dros ei phenderfyniadau a'i chyngor mewn modd syml. Mae wedi ymrwymo i benderfynu ar faterion polisi yn gyhoeddus ac ar ôl trafodaeth agored.

Rôl y pwyllgor

Mae Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru (WFAC) yn gweithredu fel bwrdd cynghori i'r ASB. Caiff aelodau WFAC eu penodi gan y Gweinidog sy'n gyfrifol am yr ASB, yn unol â Deddf Safonau Bwyd 1999. Diffinnir y rôl statudol fel a ganlyn (yn yr iaith wreiddiol):

"There shall be an advisory committee for Wales for the purpose of giving advice or information to the Agency about matters connected with its functions (including, in particular, matters affecting or otherwise relating to Wales).

Sefydlwyd WFAC yn 2000 er mwyn rhoi cyngor a gwybodaeth i'r ASB. Bydd cyngor a gwybodaeth o'r fath ar ddiogelwch bwyd, safonau bwyd a materion perthnasol, yn enwedig os ydynt yn berthnasol i Gymru. Mae rhaid i'r Asiantaeth ystyried cyngor neu wybodaeth sy'n rhesymol neu'n ymarferol, p'un a roddir y cyngor neu'r wybodaeth ar gais yr Asiantaeth ai peidio. Caiff aelodau'r Pwyllgor eu penodi gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant yn unol â Deddf Safonau Bwyd 1999, er mwyn darparu ystod eang o arbenigedd, profiad a gwybodaeth ymarferol.

Mae'r Pwyllgor yn:

- gweithredu fel cyfrwng adborth i swyddogion yr Asiantaeth a'i Bwrdd ar faterion penodol
- gweithredu ar y cyd er budd y cyhoedd
- cynghori ar ddatblygiadau polisi a deddfwriaeth yr Asiantaeth
- helpu i sefydlu blaenoriaethau'r Asiantaeth, gan ystyried:
  - pryderon defnyddwyr
  - data gwyliadwriaeth neu ymchwil
  - materion amserol
  - barn aelodau'r Pwyllgor

Mae WFAC wedi ymrwymo i weithio mewn ffordd agored a thryloyw drwy wneud y canlynol:

- cynnal cyfarfodydd cyhoeddus mewn ystod o leoliadau ar draws Cymru
- gwrando ar safbwyntiau rhanddeiliaid yng Nghymru

- cefnogi'r ASB mewn digwyddiadau cyhoeddus
- nodi materion sy'n bwysig i Gymru
- llunio cyngor trylwyr ac ystyrlon.

Mewn unrhyw flwyddyn benodol mae'r Pwyllgor yn debygol o wneud y canlynol:

- cynnal hyd at bedwar cyfarfod agored yng Nghymru wedi'u hategu gan gyfarfodydd busnes, diwrnodau hyfforddi a digwyddiadau rhanddeiliaid
- rhoi cyngor i'r Asiantaeth ar ystod o bynciau, gan gynnwys: Alergenau, Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid, Cynllun Strategol yr ASB, Strategaeth Samplu'r ASB, Cyfnod Pontio'r UE, Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnesau ac Ymwrthedd Gwrthficrobaidd.

Cyfrifoldebau cyffredinol aelodau'r Pwyllgor

Mae'r Pwyllgor yn gweithredu fel bwrdd cynghori i'r ASB. Dyma gylch gorchwyl y Pwyllgor:

- rhoi cyngor neu wybodaeth i'r Asiantaeth am faterion sy'n gysylltiedig â'i gweithrediadau, gan gynnwys materion sy'n effeithio ar Gymru neu sy'n berthnasol iddi.

Tâl Cydnabyddiaeth

Mae gan aelodau WFAC gontract am 21 diwrnod y flwyddyn, ar honorariwm o £3,885 y flwyddyn. Caiff hwn ei dalu'n fisol mewn ôl-daliadau ar un rhan o ddeuddeg o'r gyfradd flynyddol drwy gredyd banc. Nid yw'r honorariwm yn bensiynadwy, ac mae'n ddarostyngedig i ddidyniadau Yswiriant Gwladol a threthi. Bydd yr Asiantaeth yn pennu unrhyw amrywiad yn y tâl cydnabyddiaeth blynyddol. Mae'r hawl i'r tâl cydnabyddiaeth hwn dan y Ddeddf yn dod i ben ar ddiwedd eich cyfnod yn y swydd.

Er ein bod yn croesawu ceisiadau gan Weision Sifil a gweithwyr sector cyhoeddus eraill, mae Canllawiau Penodiadau Cyhoeddus y Swyddfa Weithredol yn nodi (yn yr iaith wreiddiol): "Applicants who already work in the public sector need to be aware that no one should be paid twice from the public purse for the same period of time. As a result, applicants who already work in the public sector may not be entitled to claim remuneration for a public appointment if the duties are undertaken during a period of time for which they are already paid by the public sector." Bydd yr egwyddorion hyn yn berthnasol wrth benodi aelodau i'r Pwyllgor.

Cyfarfodydd cyhoeddus

Fel rhan ymroddiad WFAC i fod yn agored, mae lleiafswm o bedwar cyfarfod y flwyddyn yn cael eu cynnal yn gyhoeddus, a gall unrhyw aelod o'r cyhoedd neu'r wasg sydd â diddordeb ddod i'r cyfarfodydd hyn. Yn ystod pob cyfarfod, mae cyfle i aelodau o'r cyhoedd ofyn cwestiynau i'r siaradwyr ac i aelodau'r Pwyllgor. Mae'n bosib y bydd y cyfarfodydd hyn yn cael eu cynnal yn swyddfa'r ASB yng Nghaerdydd. Fodd bynnag, gallai cyfarfodydd y Pwyllgor gael eu cynnal ledled Cymru hefyd, ac mae angen i'r aelodau fod yn barod i deithio yn ôl yr angen. Gan fod y cyfarfodydd hyn yn gyhoeddus, ac yn cael eu cynnal yn ôl amserlen dynn, mae angen i aelodau'r Pwyllgor allu siarad yn glir ac yn hyderus yn gyhoeddus, a gallu gwneud eu

cyfraniadau mewn modd cryno. Caiff trafodaethau sy'n ymdrin â busnes mewnol y Pwyllgor, fel materion sefydliadol a chynlluniau gwaith y dyfodol, eu cynnal yn sesiynau cynllunio'r Pwyllgor fel arfer, a chânt eu cynnal mewn sesiynau caeëdig.

Ymrwymiad amser

Mae'r rôl yn cynnwys ymrwymiad amser o 21 diwrnod y flwyddyn, gan gynnwys cyfarfodydd Pwyllgor ac amser paratoi. Mae'n bosib y bydd hefyd gofyn i chi ymgymryd â dyletswyddau eraill y Pwyllgor mewn mannau eraill pan fo'r angen yn codi. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys cyfrannu at is-bwyllgor i'r Pwyllgor, a sefydlwyd i ystyried maes pwnc penodol neu gynrychioli'r Pwyllgor mewn digwyddiad arall. Bydd holl gostau rhesymol ar gyfer teithio a chynhaliaeth yn cael eu had-dalu.

Mae'r penodiad fel arfer am 2-3 blynedd i ddechrau ac mae modd adnewyddu am dymor ychwanegol ar argymhelliad y Cadeirydd, ac yn destun perfformiad boddhaol yn ystod y cyfnod cyntaf yn y swydd. Caiff penderfyniadau terfynol ar benodiadau ac ail-benodiadau eu gwneud gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant. Nid oes unrhyw ragdybiaeth awtomatig y caiff aelod ei ailbenodi, ac mae rhagdybiaeth gryf na fydd unrhyw unigolyn yn treulio mwy na dau dymor nac yn gwasanaethu mewn unrhyw swydd am fwy na deng mlynedd.

Atodiad C

Y broses ddethol

Bydd y panel cyfweld yn asesu CV a datganiad personol pob ymgeisydd i benderfynu pwy sy'n bodloni meini prawf y rôl orau, a phwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth yn eich CV a'r datganiad i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol. Sicrhewch eich bod yn darparu tystiolaeth i ddangos sut rydych yn bodloni pob un o'r meini prawf hanfodol.

Caiff y panel dewis ei gadeirio gan yr Athro Susan Jebb, Cadeirydd Bwrdd yr ASB a bydd hefyd yn cynnwys Peter Price (Cadeirydd WFAC), Peter Jones (Llywodraeth Cymru) ac Andrew Jones (Iechyd Cyhoeddus Cymru) fel Aelod Panel Annibynnol

Gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, efallai y bydd eich cais yn cael ei roi ar restr hir cyn cael ei roi i'r panel sy'n llunio rhestr fer i'w hystyried. Dylech fod yn ymwybodol efallai na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan y panel cyfan mewn sefyllfa fel hon.

Rydym yn disgwyl y bydd y panel wedi penderfynu ym mis Mai 2023 pwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad ym mis Mehefin 2023. Ein bwriad yw cynnal cyfweliadau yng Nghaerdydd.

Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf y mae'r panel yn credu sydd wedi dangos eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodwyd yn adran manyleb y person orau fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Fodd bynnag, os ydych wedi gwneud cais o dan y cynllun gwarantu cyfweliad, **a'ch bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol** ar gyfer y swydd, byddwch hefyd yn cael eich gwahodd am gyfweliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad ac nad yw'r dyddiad eisoes wedi'i nodi yn y pecyn gwybodaeth hwn, ein nod yw rhoi cymaint o rybudd â phosib i chi o ddyddiad y cyfweliad. Os na allwch fod yn bresennol ar y dyddiad hwnnw, byddwn yn ymdrechu i aildrefnu, ond efallai na fydd hyn yn bosib oherwydd cyfyngiadau amser o fewn yr amserlen benodi neu argaeledd y panel dethol.

Byddwch yn cael e-bost gan ganolfan ceisiadau Llywodraeth Cymru i roi gwybod i chi a ydych wedi eich gwahodd i gyfweliad ai peidio.
Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, bydd y panel yn eich holi am eich sgiliau a'ch profiad ac yn gofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn **bodloni meini prawf** y swydd ai peidio.

Bydd yr ymgeiswyr y bydd y panel yn credu sy'n addas i'w penodi yn cael eu hargymell i'r Gweinidogion, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall y Gweinidog ddewis cyfarfod â'r ymgeiswyr hyn cyn gwneud penderfyniad. Os felly, bydd yn cyfarfod â'r holl ymgeiswyr ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu'r cynrychiolydd enwebedig. Bydd bwlch amser rhwng y cyfweliad a'r penderfyniad penodi terfynol. Bydd yr ymgeiswyr a gafodd eu cyfweld yn cael gwybod am unrhyw gynnydd.

Os byddwch yn llwyddiannus, cewch lythyr yn eich penodi'n aelod o Bwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru, a fydd yn cadarnhau telerau'r penodiad.

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn dilyn y cyfweliad, cewch eich hysbysu drwy ganolfan ceisiadau Llywodraeth Cymru. Rydym yn gwerthfawrogi bod gwneud cais am rolau yn gofyn am lawer o amser ac ymdrech, ac felly mae rhoi adborth yn rhan werthfawr o'r broses. O ganlyniad, bydd y llythyr yn cynnwys manylion yr unigolyn y gallwch gysylltu ag ef i gael adborth ar eich cyfweliad a'ch cais, os dymunwch wneud hynny.

Ymholiadau
Ar gyfer ymholiadau am eich cais, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

Os nad ydych yn hollol fodlon
Nod Llywodraeth Cymru yw prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosib a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych chi unrhyw gwynion am y ffordd yr ymdriniwyd â'ch cais, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru
Yn ogystal, gallwch ysgrifennu i'r cyfeiriad canlynol: Office of the Commissioner for Public Appointments
G/08, 1 Horse Guards Road, Llundain SW1A 2HQ.